

Datganiad Hygyrchedd

Taith Pyllau Glo Cymru – Parc Treftadaeth Cwm Rhondda



Nod y datganiad yma yw rhoi gwybod i ymwelwyr â'r safle am y cyfleusterau ymlaen llaw.

Mae'n galluogi unigolion sydd â gofynion hygyrchedd i ddod i benderfyniad gwybodus ynghylch a yw'r safle'n addas iddyn nhw ai peidio.

Nid ar gyfer y rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn yn unig y mae'r datganiad yma. Gall pobl ag unrhyw anabledd/nam ar eu clyw/nam meddyliol neu weledol/pobl hŷn, yn ogystal â theuluoedd â phlant ifainc, ei ddefnyddio'n gyngor cyffredinol hefyd.

Yn rhan o'r datganiad, mae cyngor ar yr hyn i'w wneud cyn cadw lle, yn ogystal ag ar gludiant, cyfarwyddiadau a chyrraedd y safle. Mae'r datganiad yn ffeithiol gywir adeg ei ysgrifennu.

Lleoliad a Chyfarwyddiadau

- Gyrru yma – dilynwch yr M4 i Gyffordd 32 a mynd ar yr A470 i Bontypridd. Mae arwyddion brown a gwyn amlwg i dwristiaid yn nodi'r ffordd i Daith Pyllau Glo Cymru
- Ar y bws – Bws 132 (Stagecoach) o Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd i Drehafoed. Mae'r safle bws yn union y tu allan i'r Ganolfan Ymwelwyr. Os oes ymholiad gyda chi, ffoniwch 0871 200 2233
- Ar y trê – o orsaf reilffordd Caerdydd Canolog i Drehafoed. Gadewch yr orsaf a throi i'r dde, gan ddilyn yr arwyddion i Daith Pyllau Glo Cymru am tua 200 metr
- Y cod post yw CF37 2NP (SatNav neu GPS)

Oriau agor:

Dydd Llun	Ar gau
Dydd Mawrth	9am tan 4.30pm
Dydd Mercher	9am tan 4.30pm
Dydd Iau	9am tan 4.30am
Dydd Gwener	9am tan 4.30pm
Dydd Sadwrn	9am tan 4.30pm
Dydd Sul	Ar gau rhwng mis Hydref a mis Ebrill. Ar agor rhwng mis Mehefin a mis Medi (gwiriwch y wefan am ddyddiadau penodol)

Bydd eich taith â thywysydd yn para tua 90 munud. Caniatewch ddigon o amser ar gyfer eich ymweliad. Rydyn ni'n argymhell aros ar y safle am tua dwy i dair awr.

Cadw lle

Ewch i'r dolenni ar ein gwefan i gadw lle

www.parctreftadaethcwmrhondda.com neu ffonio 01443 682036.

Mae'r safle yn gwbl hygyrch i'r rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn ond mae'n anwastad mewn mannau oherwydd natur y tir. Rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n gwisgo esgidiau addas.

Mae croeso i bawb ymweld â ni ond oherwydd natur y daith a maint y lifft mae cyfyngiadau ar nifer y rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn mae modd eu cynnwys ar un daith. Pan fyddwch chi'n cadw lle, os oes modd, rhwch wybod i ni a ydych chi'n defnyddio cadair olwyn.

Mae modd ein ffonio'n uniongyrchol i gadw lle i grwpiau ac ysgolion. Mae mynediad am ddim i yrwyr bysiau a threfnwyr grwpiau.

Parcio

- Mae digon o le parcio am ddim i geir a bysiau
- Mae'n hawdd cyrraedd y maes parcio oddi ar Heol Coedcae. Mae gatiau metel mawr a mannau parcio dynodedig drwyddo draw
- Gall bysiau barcio y tu allan i ganiatáu i ymwelwyr ddod oddi ar y bws cyn parcio yn y mannau parcio dynodedig i fysiau
- Mae pum cilfan wedi'u dynodi'n fannau parcio hygyrch gyda llinellau yng nghefn ac wrth ochr pob un, wedi'u nodi'n glir
- Mae modd cyrraedd y brif fynedfa ar hyd tir gwastad o flaen y cilfannau hygyrch hyd at y cwrn isel/cwrn arferol, neu ar hyd y llinellau yn y cefn ac i fyny ffordd darmac ar lethr gyson i'r cwrn isel sy'n arwain at y brif fynedfa



Cyrraedd y brif fynedfa a'r cyntedd

- Mae llwybr heb rwystrau o'r maes parcio sy'n arwain at wyneb brics glo i'r brif fynedfa
- Mae man croesi i'r maes parcio sydd â phalmant botymog
- Mae mynediad i'r Ganolfan Ymwelwyr ar hyd llwybr cerdded mawr heb rwystrau sy'n arwain at lwybr cerrig llechi
- Mae mynediad trwy ddrysau gwydr dwbl awtomatig. Mae'r gwydr wedi'i amlygu



- Mae'r lloriau y tu mewn i'r Ganolfan Ymwelwyr yn garreg naturiol ac mae'r wyneb yn gyson
- Mae desg y dderbynfa ychydig i'r dde wrth i chi fynd i mewn i'r Ganolfan ac mae rhan ohoni'n is na gweddill y desg
- Mae'r cyntedd wedi'i oleuo'n dda



Y Gymdeithas Lofaol

- Ardal arddangos fechan i'r dde o'r brif fynedfa
- Llawr teils gwastad
- Digon o le i symud cadair olwyn



Ardal fanwerthu

- Ardal fanwerthu fach â llawr teils
- Digon o le ar gyfer y rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn
- Gan fod yr ardal fanwerthu yn fach mae rhai eitemau ar silffoedd uwch
- Serch hynny, mae staff ar gael bob amser i gynorthwyo



Il Caffè Bracchi

- Mae'r cafffi ar y llawr gwaelod
- Mae nifer o fyrddau a chadeiriau y tu allan yn y cyntedd, yn ogystal ag yn y cafffi
- Bydd byrddau a chadeiriau y tu allan i'r cafffi pan fo'r tywydd yn braf
- Mae mynediad i'r cafffi yn wastad ac mae wyneb y lloriau'n newid o gerrig llechi naturiol i deils terracotta
- Mae dewis helaeth o fwyd a diod yn y cafffi, ac mae digon o le rhwng y seddi a'r byrddau
- Mae'r cafffi yn darparu ar gyfer ystod o ofynion deietegol
- Mae'r cafffi wedi'i oleuo'n dda iawn
- Mae staff ar gael i gynorthwyo bob amser



The Chocolate House

- Ardal fach ar y safle sy'n cael ei defnyddio'n ardal fanwerthu yn ystod achlysuron
- Mae mynediad trwy ddrws agored. Mae wyneb y llawr yn newid o garreg llechi i goncrit i lawr pren y tu mewn
- Mae modd mynd ar hyd ardal y cafffi i dalu am unrhyw beth



Ardal y Cigydd

- Mae mynediad i'r ardal yma trwy ddrws pren agored â gwydr ynddo
- Mae wyneb y llawr yn newid o gerrig llechi i ardal teils mosäig i lawr pren y tu mewn
- Mae digon o le ymhlith yr arddangosfeydd. Mae mainc a pholyn lamp yn union y tu allan i'r siop





Cyfleusterau


- Mae ystafell ymolchi 'Changing Places' ar y safle. Mae angen allwedd RADAR i gael mynediad ati. Mae allwedd yn y dderbynfa os does dim un gyda chi
- Wedi'i lleoli ger mynedfa'r Ganolfan Ymwelwyr
- Mae'r ardal wedi'i chynllunio'n dda ac mae modd i'r rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn (a'u cynhalwyr) droi a symud yn hawdd iawn
- Mae gwely y mae modd addasu ei uchder a theclyn codi
- Bydd angen i'r rheiny sy'n dymuno defnyddio'r teclyn codi ddod â'u sling eu hunain
- Mae modd canu'r larwm wrth dynnu'r cortyn
- Mae toiledau i ferched a dynion ar gael
- Mae ystafell newid cewynnau babis ar gael



Man arddangos y llawr uchaf

- Mae mynediad i'r llawr uchaf gan ddefnyddio'r grisiau neu'r lifft
- Mae'r lifft yn addas ar gyfer un gadair olwyn
- Mae llawer o le ar y llawr uchaf
- Mae cadair achub ar gael ar y llawr yma
- Mae'r staff wedi'u hyfforddi mewn gweithdrefnau gwacáu mewn argyfwng





Craft of Hearts

- Dyma ardal gonsesiwn ar y safle. Mae Craft of Hearts ar gael ar gyfer gweithdai (rhaid cadw lle ymlaen llaw) neu'n ardal fanwerthu
- Mynediad gan ddefnyddio'r grisiau neu'r lifft
- Mae digon o le i'r rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn eistedd yno a gweld y gweithdy

Taith yr Aur Du

- Mae'r tywysydd yn casglu'r rheiny ar deithiau yn y dderbynfa ac yn gadael trwy ddau ddrws gwydr dwbl sy'n agor â llaw
- Mae'r iard yn ardal garreg llechi sy'n arwain at lwybr brics glo



Trefor

- Mae mynediad ar hyd ramp carreg llechi neu set o bedwar gris
- Mae canllaw ar ochr dde y ramp wrth i chi fynd i mewn
- Mae marciau melyn ar hyd ymyl flaen y grisiau ac mae canllawiau ar y ddwy ochr
- Mae mynediad trwy ddrws dwbl i lawr teils
- Mae yna ardal â gatiau sydd â lled clirio effeithiol o 881 milimetr
- Wrth adael yr adeilad yma, byddwch chi'n mynd trwy ddau ddrws pren dwbl sy'n agor â llaw i ramp plât siecr




Bertie

- Ewch i lawr y ramp i lwybr tarmac
- Mae ardal fach wedi'i graeanu yn arwain at y ramp nesaf
- Mae graddiant cyson i'r ramp. Mae canllawiau ar y ddwy ochr
- Mae'r ramp yn troi i'r chwith, gan arwain at ddrysau'r fynedfa
- Mae digon o le troi wrth y fynedfa





- Mae ramp plât siecr metel glas â chanllawiau ar y naill ochr a'r llall gyda throthwy bach
- Ar ben y ramp, mae llwybr carreg llechi sy'n arwain at droad sydyn i ramp arall
- Mae llwybr ag wyneb gwastad yn arwain at ddau ddrws sy'n agor â llaw er mwyn mynd allan







Mynediad i ben y pwll glo

- I adael Bertie mae drws sy'n arwain at ramp concrit
- Mae mynediad i ben y pwll glo trwy ddrws unigol sy'n agor â llaw. Byddwch chi'n symud o lwybr tarmac i loriau concrit
- Mae troad tynn i'r dde wrth fynd i mewn i'r adeilad
- Mae'r llwybr yma'n gul ond mae digon o le ar gyfer cadair olwyn
- I'r dde mae ramp concrit gyda chanllaw i un ochr a wal allanol i'r llall Mae'r ramp yn arwain at ddrws unigol sy'n agor â llaw



Yr Ystafell Lampau

- Mae mynediad i'r Ystafell Lampau ar gyfer pobl sydd ddim yn anabl ar hyd iard ag wyneb tarmac
- Mae mynediad trwy ddau ddrws sy'n agor â llaw gyda ramp siâp twmpath sydd â gorchudd o'r naill ochr a'r llall
- Ar gyfer ymwelwyr anabl sy'n cerdded, mae canllaw i un ochr y grisiau plât siecr, sydd â sribedi melyn ar y blaen
- Mae wyth gris i lawr i'r arddangosfa. Byddwch chi'n gadael yr ystafell yma yr un ffordd ag y daethoch chi i mewn
- Gall y rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn ddefnyddio'r llwybr yma i fynd i'r Ystafell Lampau i weld yr ardal, ond rhaid mynd dros drothwy bach i wneud hyn
- Wrth gyrraedd yno, byddwch chi'n aros ar ben y grisiau gan ddefnyddio'r landin plât siecr yn fan gwyllo
- I'r rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn sy'n dymuno mynd i mewn i'r Ystafell Lampau ar lefel y ddaear, mae modd dilyn llwybr arall ar hyd pen y pwll glo. Dyma ramp concrit sy'n eich arwain trwy ddrysau dwbl i'r Ystafell Lampau
- Mae'r allanfa ar hyd yr un llwybr a bydd yn arwain i'r ardal darmac trwy'r drysau dwbl metel



Y lifft

- Mae mynediad i'r lifft heibio i'r Ystafell Lampau trwy ddrws mawr pren sy'n agor â llaw i lwybr concrit
- Y tu mewn i lobi'r lifft, mae strwythur cynnal metel ar bob ochr sydd â lled clirio effeithiol o 914 milimetr. Mae mynediad i gerbyd y lifft ar hyd llawr plât siecr




O dan y ddaear

- Sylwch fod natur y safle a chyflwr y tir yn anwastad
- Mae trac ar gyfer trol gyda thrawstiau pren wedi'i fewnosod yn y llawr o dan y ddaear. Mae sylfaen concrit wedi'i haddasu rhwng y traciau
- Mae'n bosibl y bydd llwch glo'n mynd ar esgidiau ymwelwyr
- Mae'r twnnel yn arwain i fyny llethr bach
- Mae cyfres o fatiau rwber gwrthlithro yn ardal y drws awyru
- Mae llawer o'r llwybrau cerdded o dan y ddaear wedi'u gorchuddio â llwch glo
- Mae graddiant y llwybr nesaf yn raddol ac mae'n arwain at ddrws arall sy'n arwain at lwybr concrit
- Bydd y llwybr concrit yn newid i lwybr ar gyfer trol sydd ag wyneb cadarn a graddiant
- Ar ôl gadael y llwybr yma, mae'r llawr yn troi'n balmant botymog. Mae'r llwybr yma'n arwain at yr allanfa. Dylai ymwelwyr â nam ar y golwg o unrhyw fath fod yn effro i'r ffaith bod palmant botymog wedi'i ddefnyddio yn yr ardal yma





'The Simulator'

- Dyma brofiad 'pedwar dimensiwn' mewn cerbyd â sylfaen sefydlog
- Ar hyn o bryd dydy'r seddi ddim yn hygyrch i'r rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn
- Mae modd i bobl sydd ddim yn anabl symud o gadair olwyn i'r seddi sefydlog
- Mae modd i'r rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn eistedd ar y llwybr cerdded yn union gerllaw'r cerbyd



Gadael a dychwelyd i'r prif adeilad

- Ewch allan drwy ddrws sengl dros y cerrig llechi
- Mae hyn yn arwain at wyneb tarmac a graean nes i chi gyrraedd llwybr y cerrig llechi i gyrraedd y Ganolfan Ymwelwyr



Gweithdrefnau gwacáu mewn argyfwng

- Mae staff dynodedig wedi'u hyfforddi mewn gweithdrefnau gwacáu rhag ofn bydd tân
- Mae cyfarwyddiadau i fannau ymgynnull i'w gweld yn glir
- Bydd staff a thywyswyr teithiau'n cyfathrebu â'i gilydd gan ddefnyddio radios bob amser
- Mae arwyddion allanfeydd tân, larymau tân a diffoddwyr tân yn hygyrch ac i'w gweld yn glir
- Mae larymau tân sy'n seinio yn eu lle
- Mae digonedd o lwybrau i ddianc rhag tân o dan y ddaear ac mewn argyfwng mae tywyswyr wedi'u hyfforddi i helpu i wacáu'r holl ymwelwyr sydd ar y daith bryd hynny
- Mae cadeiriau achub wedi'u lleoli yn y Ganolfan Ymwelwyr ac o dan y ddaear
- Sylwch, oherwydd bod rhai mannau gwacáu dan y ddaear mae'n bosib y bydd angen cymorth y gwasanaeth tân i ddod â'r rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn i'r wyneb os na fydd modd dychwelyd i'r ardal dan y ddaear

Gwybodaeth ychwanegol

- Mae croeso i gŵn tywys ledled y safle
- Caiff cŵn sydd ddim yn gŵn tywys ddod i lawr gwaelod y Ganolfan Ymwelwyr a'r tu allan
- Mae'r safle'n mynd yn brysur, yn enwedig ar ddiwrnodau achlysuron. Sylwch fod y safle wedi ennill ei wobwr 'Addas i Bobl ag Awtistiaeth' ac mae modd trefnu teithiau tawelach ymlaen llaw.
- Mae taflenni ieithoedd tramor ar gael mewn sawl iaith ar gyfer teithiau

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Ar hyn o bryd rydyn ni'n adolygu materion dehongli ar y safle. Ein nod yw arddangos ein harddangosfeydd a'n deunydd dehongli ar y safle mewn fformat mwy hygyrch i bob defnyddiwr o bob oed a gallu.